# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(77)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 –6, 8 – 12 ac 14 – 15. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl. Trosglwyddwyd cwestiwn 13 i'w ateb yn ysgrifenedig.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Dechreuodd yr eitem am 14.13

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 9 ac 11 – 15. Trosglwyddwyd cwestiwn 10 i'w ateb yn ysgrifenedig.

### 3. Cynnig o dan adran 19(5)(a) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011

Dechreuodd yr eitem am 15.05

**NNDM5028**
**Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**
**Russell George (Sir Drefaldwyn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 19(5)(a) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011:

Yn cytuno bod y weithdrefn a nodir yn adrannau 19(6) i 19(9) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn berthnasol i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Gellir gweld Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 drwy fynd i:
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/24/contents (Saesneg yn unig)

Gosodwyd Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 gerbron y Cynulliad ar 30 Mai 2012.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 41 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

**4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)**

Dechreuodd yr eitem am 15.33

**NDM5023**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**
**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ym mhob etholiad a refferendwm a gynhelir yng Nghymru.

**Cefnogwyd gan:**
Keith Davies (Llanelli)
Christine Chapman (Cwm Cynon)
Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)
Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)
Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)
Julie James (Gorllewin Abertawe)
Peter Black (Gorllewin De Cymru)
Mick Antoniw (Pontypridd)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Canlyniad y bleidlais:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 8 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 16.15

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5030 William Graham (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod:

a) cymunedau gwledig yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys poblogaethau sy'n heneiddio, mynediad cyfyngedig at wasanaethau yn ogystal ag arwahanrwydd cymdeithasol ac economaidd;

b) hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig yn cael ei danseilio gan seilwaith cyfathrebu a thrafnidiaeth wael; ac

c) diwydiant ffermio Cymru yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys diogelu'r cyflenwad bwyd, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd anifeiliaid.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi rhagor o gydnabyddiaeth i amddifadedd gwledig, gan gynnwys tlodi trafnidiaeth a mynediad cyfyngedig at wasanaethau a thai fforddiadwy;

b) sicrhau nad oes oedi pellach wrth gyflwyno Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf;

c) cydnabod manteision ysgogi'r economi wledig drwy ryddhad ardrethi busnes a gwell cymorth i fusnesau bach a chanolig gwledig; a

d) gweithio mewn partneriaeth ag undebau ffermio a rhanddeiliaid gwledig fel bod cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 33 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 1b a newid i:

'seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu yn allweddol wrth gynnal hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig; ac'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 23 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

‘y £56.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yn hwb i’w groesawu mewn ardal wledig.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Yn is-bwynt 2a, dileu ‘rhoi rhagor o gydnabyddiaeth’ a newid i ‘parhau i roi cydnabyddaieth’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 24 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 2b a newid i:

‘sicrhau bod Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yn parhau i gyflawni ymrwymiadau y Rhaglen Lywodraethu ar amser;’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 23 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

‘adolygu’r Grant Cynnal Refeniw i ystyried gwledigrwydd yn well.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 28 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5030 William Graham (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod:

a) cymunedau gwledig yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys poblogaethau sy'n heneiddio, mynediad cyfyngedig at wasanaethau yn ogystal ag arwahanrwydd cymdeithasol ac economaidd;

b) seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu yn allweddol wrth gynnal hyfywedd busnesau a chymunedau gwledig;

c) diwydiant ffermio Cymru yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys diogelu'r cyflenwad bwyd, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd anifeiliaid; a

d) y £56.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yn hwb i'w groesawu mewn ardal wledig

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) parhau i roi cydnabyddiaeth i amddifadedd gwledig, gan gynnwys tlodi trafnidiaeth a mynediad cyfyngedig at wasanaethau a thai fforddiadwy;

b) sicrhau bod Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf yn parhau i gyflawni ymrwymiadau y Rhaglen Lywodraethu ar amser;

c) cydnabod manteision ysgogi'r economi wledig drwy ryddhad ardrethi busnes a gwell cymorth i fusnesau bach a chanolig gwledig; a

d) gweithio mewn partneriaeth ag undebau ffermio a rhanddeiliaid gwledig fel bod cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17.12

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5027 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gwrthwynebu lleoli Trident, neu unrhyw arfau niwclear eraill, yn Aberdaugleddau neu yn unrhyw le arall yng Nghymru; a

2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i beidio â bwrw ymlaen i gael olynydd i Trident ac i ddefnyddio'r adnoddau a arbedwyd i greu swyddi.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i benderfynu ble y lleolir arfau niwclear ac yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 13 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5027 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i benderfynu ble y lleolir arfau niwclear ac yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 8 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.10

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.15

**NDM5029 Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Clefydau Anghyffredin

Archwilio'r cyfleoedd i roi sylw i'r problemau cyffredin a wynebir gan bobl gyda chlefydau anghyffredin.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:37

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2012**